Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd yr wythnos hon am farwolaeth Mr Gwilym Davies (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod, Rhiannon a hefyd eu plant, Sian a Gethin a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl a charedig. Gweddïwn y byddant fel teulu yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf hyn.

Chwith deall hefyd fod Beryl Morris (Cefn Berain) wedi colli ei brawd, Arthur Evans. Estynnwn yr un cydymdeimlad â hithau a'r teulu i gyd a dymunwn yr un nodded a nerth iddynt oll.

Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Mae Morfudd Jones (Llannefydd) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Eurgain Pierce (Llannefydd) a Dilys Roberts (Henllan) yn yr Inffirmari, ond mae Dilys yn gobeithio y bydd wedi cael dod adre yn y dyddiau nesaf hyn. Cyflwynwn y tair i ofal Duw, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid hefyd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Angharad ac Elis Gwyn (Llansannan) ar enedigaeth Alaw Mai. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Wythnos Weddi EBC: Mai 20fed–27ain (Llun–Sul)

Bydd yr Wythnos Weddi yn gyfnod y bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn plygu ei phen ac yn codi ei llais fel un. Am y saith diwrnod, y bwriad yw ein bod yn uno yn ein pryderon a'n beichiau ar gyfer dyfodol ein gwlad a'n byd. O ystyried cyflwr ysbrydol ein cenedl a thensiynau gwleidyddol ein byd, mae gwir angen i ni uno mewn gweddi. Da ni bellach yn byw mewn cyfnod tra gwahanol, gyda heriau gwahanol, ond mae gweddi – a oedd yn sail i bopeth a wnaeth ein hynafiaid – mor berthnasol heddiw ag erioed. Rhaid inni weddïo! Mae'n byd mewn trafferthion enfawr a'n cenedl fach ni heb obaith. Felly, er ein lles ein hunain, mae'n rhaid inni weddïo. Dywedodd Iesu, "Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw, hyn a wnaf, fel y gellir gogoneddu'r Tad yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf" (Ioan 14:13,14).

Mae manylion y ddwy noson lle bydd y cyfarfodydd yn rhai cenedlaethol i'w gweld tros y dudalen. **Ar gyfer y diwrnodau eraill, mae Dyddiadur Wythnos Weddi wedi'i lunio i ni allu ei ddefnyddio fel arweiniad i'n gweddïau personol. Cysylltwch â Mair i gael copi ohono.**

Rhaghysbys

- **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd –** Noson yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas nos Fercher, Mehefin 5ed am 7:00 yr hwyr yng nghwmni Eirian Roberts, Trefnydd Gwaith y Chwiorydd, Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (29ain), plîs.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19 Mai 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Tystion Cywir

Gawsoch chi eich galw i fod yn dyst mewn llys barn erioed? Gwyddom fod bob tyst effeithiol yn gwybod ei ffeithiau. Rhaid hefyd i gymeriad y tyst fod yn un cywir neu bydd yn tynnu oddi ar y dystiolaeth. Mae angen i'r tyst allu perswadio ei wrandawyr ei fod yn dweud y gwir. Cyn iddo esgyn i'r nef gofalodd Iesu Grist fod tystion effeithiol ar gael i gyhoeddi ystyr ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Gwnaeth hyn trwy ymddangos i'r disgyblion i'w hargyhoeddi yn gyntaf o'r ffaith ryfeddol ei fod yn fyw. Pobl oedd yn ei chael yn anodd i gredu hynny oeddynt. Ond bu'r dystiolaeth yn ddigon iddynt dderbyn bod atgyfodiad Iesu Grist yn ffaith. Cawsant ei deimlo â'u dwylo a'i weld yn bwyta ac yn yfed. Profasant gwmni'r Iesu byw yn ymwneud â hwy.

Wedi eu hargyhoeddi o wirionedd ei atgyfodiad eglurodd ystyr ei farwolaeth a'i atgyfodiad gan gyfeirio at yr Hen Destament. (Gweler Luc 24) Yna wedi ei ymadawiad i'r nef anfonodd ei Ysbryd Glân i nerthu ei ddilynwyr i fod yn dystion fyddai'n cyhoeddi i'r byd gydag argyhoeddiad y newydd da am Iesu. Cofiwn eiriau Pedr ddydd y Pentecost "A dyna sydd wedi digwydd! – mae Duw wedi codi Iesu yn ôl yn fyw, a dan ni'n lygad-dystion i'r ffaith! Bellach mae'n eistedd yn y sedd anrhydedd ar ochr dde Duw. Rhoddodd y Tad yr Ysbryd Glân oedd wedi'i addo, iddo ei dywallt arnon ni. Dyna 'dach chi wedi'i weld a'i glywed yn digwydd yma heddiw."(Actau 2:32-33)

Amhosib ydi egluro bywyd a gweithredoedd y dilynwyr cyntaf heb atgyfodiad Iesu. Ceisiwyd mewn llawer ffordd roi taw arnynt trwy eu herlid a'u bygwth. Cafodd nifer fawr eu merthyru yn hytrach na gwadu Iesu Grist a hynny ar hyd y canrifoedd. Cofiwn nad adawodd Duw ei hun yn ddi-dyst yn unrhyw genhedlaeth. Mae'n anodd cael rhai i wrando tystiolaeth y tystion heb ragfarn a rhagdybiaethau gwrthwynebus. Mewn llys barn rhaid i dystion gael y cyfle i dystio o flaen pobl sydd yn fodlon gwneud penderfyniad ar sail y ffeithiau yn unig. Dim ond yr un euog sydd am roi taw ar y tystion a chladdu'r ffeithiau. Os ydym am gryfhau ein ffydd a'n tystiolaeth neu am gael gwybod y gwir rhown gyfle teg i wrando'r ffeithiau a cheisiwn yn ddyddiol nerth ei Ysbryd Glân.

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mai 19eg

- **Oedfa Gymun yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dewi Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 a'r Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).
- **Oedfa'r Fro yng Nghapel Henllan** am 6:00 yr hwyr gydag Eryl Davies yn arwain a'r Parch. John Pritchard yn pregethu.

Dydd Llun, Mai 20fed

- **Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru –** Cyfarfod Gweddi i'r enwad cyfan mewn 22 canolfan trwy Gymru drwy ZOOM o 7:00 – 8:00 yr hwyr. Y ganolfan leol i ni fydd **Festri Capel Cefn Meiriadog**. Yn y rhan ddechreuol, bydd y Parch. Aneurin Owen yn darllen o Air Duw ac yn rhoi gair o anogaeth, ac yna bydd cyfle i weddïo am ein pryderon rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Croeso i bawb. *(Mwy o wybodaeth am yr Wythnos Weddi dros y dudalen.)*

Dydd Mawrth, Mai 21ain

- **NI FYDD Cinio Jangl** yn Festri Llansannan heddiw.

Dydd Mercher, Mai 22ain

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** *DYDDIAD NEWYDD **–** Cyfarfod yng Nghapel Y Fron, Dinbych am 6:30 yr hwyr. Ni fydd Cyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul eleni.

Dydd Iau, Mai 23ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor hwn.
- **Cyfarfod Gweddi Cenedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru –** Cyfarfod Gweddi drwy ZOOM i'r enwad cyfan, boed o'ch cartrefi neu o unrhyw fan arall lle mae Wi-Fi ar gael. Yn y rhan ddechreuol, bydd y Parch. Nan Powell Davies yn darllen o Air Duw ac yn rhoi gair o anogaeth, ac yna bydd cyfle i weddïo am ein pryderon rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Y ddolen i gysylltu yw: https://us02web.zoom.us/j/85867454560?pwd=bkZ4OW9nOWhQWUxBUHc0cnlVRmhuZz09 Meeting ID: 858 6745 4560 Passcode: 786067

Dydd Gwener, Mai 24ain

- **Taith Gerdded Flynyddol Cymdeithas Lenyddol Henllan –** Ymgynnull ym muarth y Capel am 6:00 yr hwyr cyn teithio i Fae Penrhyn i gerdded yn ardal Porth Dyniewaid. Terfynir y noson gyda swper o bysgodyn a sglodion. Croeso cynnes i bawb a does dim rhaid cerdded hyd yn oed, cewch ddod i ymuno â ni am swper!

Dydd Sul, Mai 26ain

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.
- **Oedfa i'r Daith (Henllan, Groes, Llannefydd a Chefn Berain) yn Henllan** am 10:30 o dan arweiniad Rhys Dafis.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.

Dydd Mawrth, Mai 28ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sul, Mehefin 2il

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr John Roberts. Bydd pleidlais yn cael ei chynnal ar ddechrau'r oedfa yn Llansannan, y tro hwn er mwyn enwebu blaenoriaid. *(Gweler isod.)* Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. David Owens. Bydd pleidlais yn cael ei chynnal ar ddechrau'r oedfa yn Groes, y tro hwn er mwyn enwebu blaenoriaid. *(Gweler isod.)* Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.

Ethol blaenoriaid

Yn dilyn y bleidlais a gynhaliwyd yn Groes, Nantglyn a Llansannan rai wythnosau yn ôl, cafwyd bod y tair eglwys o blaid ethol mwy o flaenoriaid. Felly, **os bydd yr Henaduriaeth yn eu cyfarfod nos Fercher nesaf (22ain) yn cydsynio â'r cais**, bydd dau aelod o blith yr Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais yn Groes a Llansannan am 11:00 ar Fehefin 2il, a Nantglyn am 2:00 y pnawn ar Fehefin 9fed.

Y tro hwn, a thrwy bleidlais hollol ddirgel, bydd angen i aelodau'r eglwysi enwebu blaenoriaid newydd. Peidiwch â chyfyngu hynny i un neu ddau enw os credwch fod eraill hefyd yn addas i'r gwaith. Mae rhyddid i chi enwebu y nifer a fynnwch. Yn wir, fe fyddai gwneud hynny o fantais oherwydd, cyn y bydd unigolyn wedi ei ddewis i fod yn flaenor, bydd yn rhaid i o leiaf 51% o'r aelodau fydd yn pleidleisio fod wedi enwebu'r unigolyn hwnnw. *(Mwy o fanylion y tro nesaf.)*